

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 107

Key Language

'wrth' = while, as
fy, dy, ei etc. as pronoun objects of the verbal noun

New Words

euog	guilty
gofal	care
anwybyddu	to ignore
gormod	too much
ffaelu	to fail, to be unable
hyd yn oed	even
gynnau	earlier, a short while ago
creisis	a crisis
doniol	funny
cysurus	comfortable
ffaith	a fact
swta	abrupt
wyneb yn wyneb	face to face
o flaen	in front of
gorfod	must
yn synnu	to be surprised
hasl lond fy mywyd	a life full of hassle
coelio	to believe
cael y blaen ar	to have an advantage over
ar fin	on the point of
ias ffres yn yr awel	a fresh nip in the air
dyfalu	to guess
cyn-ŵr	ex-husband
rhoi cynnig	to have a try
bwriadu	to intend
yn enwedig	particularly
rhydd	free
lloerig	mad
gwerth	worth
cael gwared o	to get rid of
unwaith ac am byth	once and for all

Jac discusses Brian's aggressive behaviour with Michelle at the Yacht Club but doesn't get a very sympathetic response.

Michelle - Rwy'ti'n gallu deall pam mae Brian yn teimlo fel mae e...

Jac - Busnes ydy busnes...

Michelle - Ond sut fyddet ti'n teimlo tasai rhywun yn gwneud rhywbeth fel yna i ti?

Meanwhile Wendy's nerves have got the better of her and she demands they sell the house.

Wendy - We must sell this house! And no - this isn't a discussion, Brian. This is what we are going to do!

Main Grammatical Points

Brian tells Michelle he got the idea of calling on her in person, as he was driving through town in his car.

Brian - ... wrth yrru trwy'r dre yn y car jest rwan, roedd hi'n well gen i gael gair efo chdi wyneb yn wyneb...

'Wrth' in this context, means 'as' or 'while', and it's always followed by the mutated verb. So, 'Wrth yrru drwy'r dre' in this example means 'While driving through town...'. The same pattern is used for all tenses. You can tell which tense from the context.

'Wrth', with the meaning 'as' or 'while' occurs as a sort of refrain in the folk song 'Wrth fynd efo Deio i Dywyn' which means 'While going with Deio to Tywyn'. For those of you who are interested, here is the song in full.

Mi dderbyniais bwt o lythyr
Fa la la la la la la la la la
Oddi wrth Mistar Jones o'r Brithdir,
Fa la la la la la la la la la
Ac yn hwnnw roedd o'n gofyn
Fa la la la la la la la la la
Awn ni efo Deio i Dywyn
Fa la la la la la la la la la

Fe gychwynnwyd ar Nos Wener,
Fa la la ...
Dod i Fawddwy erbyn swper,
Fa la la ...
Fe gawn yno uwd a menyn
Fa la la ...
Wrth fynd efo Deio i Dywyn.
Fa la la ...

Dod ymlaen ac heibio'r Ddinas,
Bara a chaws a chwrw 'Ngwanas,
Drwy Dalyllyn yr aem i'n llinyn,
Wrth fynd efo Deio i Dywyn.

Dod drwy Abergynolwyn
Ac ymlaen dan Graig y Deryn;
Pan gyrhaedd'som Ynys Maengwyn
Gwaeddai Deio, 'Dacw Dywyn.'

Os bydda'i byw un flwyddyn eto
Mynna'n helaeth iawn gynilo, -
Mi ga'i bleser anghyffredin
Wrth fynd efo Deio i Dywyn.

When Michelle asks Brian if he believes her, she says; 'Wyt ti'n fy nghredu fi?'

Whereas in English the words *me, you, him, her, us* or *them* follow the verb, in Welsh the reverse happens and they precede the verb.

For example 'Do you believe me? is Wyt ti'n fy nghredu i?' Literally, 'Do you me believe?'

Listen to some other examples:

'I believe you' is 'Dw i'n dy gredu di'. Literally, 'I you believe'.

'Dwi'n ei gredu e' - I believe him - I him believe

'Dwi'n ei chredu hi' - I believe her - I her believe

You mutate in exactly the same way that you'd normally mutate after *fy*, *dy* and *ei* meaning my, your, his or her.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 318

The noises in the house are getting on top of Wendy - so much so that she ends up confiding in Agnes of all people.

In the meantime, Michelle invites Brian over for a drink.

Geirfa

euog	guilty
gofal	care
anwybyddu	to ignore
gormod	too much
ffaelu	to fail, to be unable
hyd yn oed	even
o ddifrif	seriously
gynnau	earlier, a short while ago
creisis	a crisis
doniol	funny
cysurus	comfortable

Golygfa 1

Brian - Heia....

Michelle - Shw'mai?

Brian - Petrol?

Michelle - Na. Jest...social call...Happened to be passing by...

Brian - Lle wyt ti wedi bod felly?

Michelle - Lan yn yr ysbyty...Es i i weld Chris.

Brian - Ah-huh...Pam est ti i weld Chris?

Michelle - Doctor Jenny Saunders wnaeth ffonio...Chris is going through a really bad patch...He kept going on about me all the time...So, the medics in charge thought it would be a good idea for me to pop along...

Brian - Ac oedd o?

Michelle - Sa i'n credu hynny...

Brian - Rwyd ti wedi gwneud i mi deimlo'n euog rwan...Dw i heb fod i'w weld o ers y busnes yna ar dô yr ysbyty...

Michelle - Sa i'n ei weld e'n dod mas byth.

Brian - Creadur bach...

Michelle - Seeing him there made me feel so depressed...Dw i'n wastad wedi slagan fe off...And he deserved it, 'cause he was a nasty piece of work, but even then...

Brian - Mae o'n well yn lle mae o...

Michelle - Beth wyt ti'n ei feddwl?

Brian - Mae o'n cael pob gofal, onid ydy?

Michelle - 'Suppose so. Still...

Brian - Wyt ti ar dy ffordd i'r Yacht Club rwan?

Michelle - Na. Gartref. Mae noson off gyda fi heno...Dere draw i'r tŷ ar ôl iti gwplu yn y fan hyn. Dim ond os wyt ti eisiau, wrth gwrs...

Golygfa 2

Wendy - Oh, God...seeing you - that's all I need!

Agnes - Prynawn da, Wendy.

Wendy - Os nad oeddwn i ddim yn depressed before, dw i'n seriously depressed nawr!

Agnes - Diolch am y compliment.

Wendy - You and your Long John Silver - the two vampires in my life...Sucking the life force from Brian and me...

Agnes - Y peth gorau dw i'n credu yw i ni'n dwy anwybyddu ein gilydd...

Beth sy'n bod?

Wendy - Mae popeth yn ormod...Popeth...! Des i mewn yma i ddewis carden penblwydd i mam, ond dw i'n ffaelu gwneud hynny hyd yn oed....
 Agnes - Rydych chi'n edrych yn flinedig....
 Wendy - Dw i'n shattered...
 Agnes - Ydych chi wedi mynd i weld y doctor?
 Wendy - Pa 'use' fyddai hynny?
 Agnes - Os ydych chi'n flinedig...
 Wendy - Stress yw e. Dw i'n stressed out, woman. And then there's the house...
 Agnes - Beth 'bytu'r tŷ?
 Wendy - Peeping Tom...or haunted or something...I don't know...
 Agnes - Haunted? Beth? Ysbryd?
 Wendy - Yeah...Neu rywbeth...Rhywun yn fy ngwylio fi...
 Agnes - Wendy - o ddifrif nawr: dw i'n credu dylech chi fynd i siarad gyda rhywun am 'bytu hyn...
 Wendy - Dw i wedi siarad gyda rhywun: Brian. Ond so fe'n cymryd fi o ddifrif, nac yw e?

Golygfa 3

Michelle - Dere mewn...
 Brian - Dw i'n methu aros yn hir...
 Michelle - Wyt ti eisiau drinc?
 Brian - Un sydyn, ynteu. Diolch...
 Michelle - Eistedd...Beth yw'r hast?
 Brian - Wendy. Mi ffoniodd hi fi yn y garej gynnu. Wrth chwilio am gardyn penblwydd i'w mam y prynhawn yma, roedd hi wedi cael rhyw fath o... wel greisis...
 Michelle - Creisis? Pa fath o greisis?
 Brian - Dweud ti wrthyf fi. Creisis ydy enw canol Wendy. Dydy o ddim yn ddoniol. Mae hi'n...
 Michelle - Beth?
 Brian - Mae hi'n meddwl bod rhywun yn ein gwylio ni yn y tŷ...Ac mae hi am inni werthu a symud i fyw i rywle arall.
 Michelle - You're kidding me?
 Brian - Na, dydw i ddim...
 Diolch...lechyd da...
 Michelle - lechyd da...
 Brian - Mae gen ti le neis yma...
 Michelle - Siwtio fi.
 Brian - Lle bach cysurus...
 Michelle - Gets a bit lonely sometimes...Kiss me.
 Brian - Wel dydw i ddim yn siwr os...
 Michelle - Cusana fi. Jest cusana fi...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 319

Wendy and Brian have had an early morning quarrel about his refusal to sell the house, so Brian turns to Michelle for solace and receives a word of advice from her.

Geirfa

ffaith	a fact
swta	abrupt
wyneb yn wyneb	face to face
o flaen	in front of
gorfod	must
yn synnu	to be surprised
hasl lond fy mywyd	a life full of hassle
coelio	to believe
cael y blaen ar	to have an advantage over

Golygfa 1

Michelle - Olreit...Olreit...Hold your horses...Dw i'n dod nawr...

Brian - Sori...

Michelle - Brian?

Brian - Dw i'n gwybod ei bod hi'n gynnar...

Michelle - Faint o'r gloch yw hi?

Brian - Chwarter i wyth...

Michelle - Pam wyt ti wedi fy neffro fi?

Brian - Ar fy ffordd i'r gwaith ydw i...Ac ar ôl neithiwr...Ar ôl imi alw yma neithiwr a'r ffaith fy mod i wedi gorfod dy adael di mor swta, roeddwn i'n teimlo fy mod i eisiau cyfle i siarad yn iawn efo chdi...

Michelle - Dere i mewn ynteu...

Brian - Diolch...Roeddwn i wedi meddwl dy ffonio chdi...Ond wrth yrru trwy'r dref yn y car jest rwan, roedd hi'n well gen i gael gair efo chdi wyneb yn wyneb...

Michelle - Coffi?

Brian - Pam lai? Wyt ti'n iawn?

Michelle - Ydw, dw i'n iawn. Except for the fact that some prat got me up at an unearthly hour...

Brian - Sori eto.

Michelle - Joke.

Brian - Ar ôl imi dy adael di neithiwr, fues i'n meddwl amdanach chdi trwy'r nos....

Michelle - Yeah, well...Fues i'n meddwl 'bytu ti hefyd.

Brian - Doeddwn i ddim yn leicio i chdi feddwl fy mod i jest wedi dod yma a wel...ti'n gwybod...

Michelle - Beth?

Brian - Doeddwn i ddim eisiau i chdi feddwl ein bod ni wedi...

Brian - Wendy.

Michelle - Well i ti ei hateb hi ie?

Brian - Wendy? Heia...

Wendy - Brian? Ble wyt ti nawr? Car neu garej?

Brian - Garej, pam?

Wendy - Dw i jest eisiau..About me screaming at you before you left the house just now...Well...Dw i eisiau dweud fy mod i'n sori...Dw i'n really sori O.K.?

Brian - O.K.

Wendy - Wyt ti'n fy nghredu fi?

Brian - Ydw...

Wendy - 'Cause I know I'm being difficult at the moment and I'm afraid that I'm pushing you away from me and if you left me Brian I don't know what I'd do with myself...

Brian - Dw i'n clywed beth wyt ti'n ei ddweud...

Wendy - Dw i'n dy garu ti, Brian, dy garu ti lot...

Brian - Wendy, edrycha: mae'n rhaid i mi fynd...

Wendy - Say that you love me...

Brian - Gad inni siarad heno, ie?

Wendy - Dywed dy fod ti'n fy ngharu i! Dw i am iti ddweud dy fod ti'n fy ngharu fi...

Brian - Mae gen i gwsmer yn sefyll o fy mlaen i...Wendy, sori ond does gen i ddim amser i - sori.
Dw i'n gorfod mynd...Hwyl!
Michelle - A scene over the breakfast table, I take it?
Brian - Ie...
Michelle - Bad?
Brian - Mi wnaeth Wendy ddechrau gweiddi arnaf i...
Michelle - 'Bytu beth?
Brian - Y ffaith fy mod i'n gwrthod gwerthu'r tŷ...
Michelle - She's still harping on about that?
Brian - Yn fwy nag erioed.
Michelle - Must get you down?
Brian - A dweud y lleiaf...
Michelle - Dacw ti. Coffi...
Brian - Diolch. Dw i jest yn teimlo bod pawb a phob un dim ar fy mhen i...Does yna ddim byd ond hasls lond fy mywyd i...
Michelle - Wyt ti'n edrych yn flinedig...
Brian - Dydw i ddim yn synnu. Achos dwi'n teimlo'n flinedig...
Michelle - You don't love her do you?
Wendy...So ti wedi ei charu hi ers amser...
Brian - Na...
Michelle - I could tell.
Brian - Dw i heb ei charu hi ers y busnes yna efo Frank...Y DNA...Dw i'n dal i fethu coelio mai fi ydy ei dad o...
Michelle - Have a second test...
Brian - Ac wedyn beth?
Michelle - Wedyn fe fyddet ti'n gwybod y gwir.
Brian - Oes yna bwynt?
Michelle - Yes, if you still harbour suspicions...
Brian - Sori. Well i fi fynd i agor y garej yna. Dw i ddim eisiau i Jac Whelan gael y blaen arnaf i...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 320

During a secret meeting, Brian confides in Michelle that he's going to seek Chris's help to sort Jac out.

In the meantime Wendy's frantically looking for Brian, who's nowhere to be found.

Geirfa

ar fin	on the point of
ias ffres yn yr awel	a fresh nip in the air
dyfalu	to guess
cyn-ŵr	ex-husband
rhoi cynnig	to have a try
bwriadu	to intend
yn enwedig	particularly
rhydd	free
lloerig	mad
gwerth	worth
cael gwared o	to get rid of
unwaith ac am byth	once and for all

Golygfa 1

Agnes - Yffach...

Jac - Beth sydd?

Agnes - Am y tro cyntaf eleni dw i'n teimlo bod y Gwanwyn ar fin cyrraedd...

Jac - Rwyd ti'n iawn...

Agnes - Mae rhyw ias ffres yn yr awel onid oes?

Jac - Mmmmmm.

So. Dyna ni. Tanc llawn....

Agnes - Diolch...O, yffach!

Jac - Beth sydd rwan eto?

Agnes - Paid ag edrych nawr - reit?

Jac - Reit...

Agnes - Ond dyfala pwy sy'n croesi'r hewl tuag aton ni?

Jac - Dy gyn-ŵr di efallai?

Agnes - Rho gynnig arall arni.

Jac - Pwy?

Agnes - Mae hi yma...

Wendy - Ydych chi wedi gweld Brian y bore yma?

Jac - Bore da, Wendy...

Wendy - Ydych chi? Ydych chi wedi gweld Brian y bore yma?

Agnes - Diolch am y petrol, Jac. Mae'n well i fi fynd tua'r ysbyty yna....

Jac - Hwyl i ti, Agnes...

Agnes - Hwyl...

Wendy - Wyt ti, Jac?

Jac - Ydw i beth rwan, Wendy?

Wendy - Wedi gweld Brian yn groes yr hewl y bore yma?

Jac - Do. Do, mi oedd o yn ei garej y peth cyntaf y bore yma ac wedyn - tua - beth oedd hi hefyd?

Hanner awr wedi deg efallai? Mi aeth e mewn car i rywle...

Wendy - Test drive, ie?

Jac - Na. Yn ei gar ei hun aeth o...

Wendy - Mae hi bron yn half eleven nawr...Pam nad yw e yn ôl ynteu?

Jac - Wyt ti wedi trio ei ffonio fo?

Wendy - Do. Wrth gwrs fy mod i. Ond mae'i mobeil e off...

Jac - Esgusoda fi. Ond mae gen i waith i'w wneud...

Wendy - Brian, love...Ble wyt ti?

Golygfa 2

Brian - Faint o'r gloch ydy hi...? Hei! Mae hi bron yn hanner dydd...

Michelle - Paid â mynd eto...

Brian - Mae'n rhaid i mi...

Michelle - Aros am ddeg munud arall...

Brian - Dim ond am awr oeddwn i'n bwriadu aros...

Michelle - I love the smell on the back of your neck...it's like nectar...Mmmmmmm....

Brian - Faint o fet fod Wendy wedi trio fy ffonio fi?

Michelle - Anghofia 'bytu hi...

Brian - Fedraf i ddim yn hawdd...

Michelle - I wish I had a magic wand to blow all your troubles away...

Brian - Mae yna ateb i bob problem yn y diwedd.

Michelle - A Jac Whelan?

Brian - Oes...

Michelle - Beth ynteu?

Brian - Dw i wedi cael syniad...

Michelle - Beth yw e?

Brian - Wel dydw i ddim yn siwr os dylwn i ddweud wrthy chdi...

Michelle - Test the idea on me...

Brian - lawn...Chris.

Michelle - Chris?

Brian - Ie...Chris ydy'r ateb i fy mhroblemau i. Yn enwedig Jac...

Michelle - Ond sut? He's locked up in the looney bin?

Brian - Mae o wedi torri yn rhydd unwaith...Beth sydd yna i'w stopio fo rhag torri yn rhydd unwaith eto? Yn enwedig tasai fo yn cael help i wneud hynny?

Michelle - You serious?

Brian - Allaf i ddim meddwl am ffordd arall...

Michelle - Beth? That Chris sorts out the problem of Jac's garage for you?

Brian - Jac ei hun oeddwn i'n ei feddwl.

Michelle - Yeah...Ond mae...

Brian - Ond mae beth?

Michelle - Mae Chris yn...

Brian - Yn beth? Lloerig?

Michelle - Yeah. Lloerig. He's a total fruitcake. He's so unstable...And unreliable...He might not do what you want and create an almighty havoc...

Brian - Dwyt ti ddim yn meddwl fod honno yn risg gwerth ei chymryd? Yn enwedig os ydw i'n cael gwared o Jac Whelan unwaith ac am byth?

Synopsis

Brian's relationship with Michelle is becoming more intimate. He admits to her that he doesn't love Wendy, and finds it hard to believe that he's Frank's father. Michelle then offers some unexpected advice?

Meanwhile Wendy calls into Jac's garage to ask if he'd seen Brian. Jac tells her that he'd seen Brian leave in a car an hour earlier.

Test yourself

- Which of the following is an alternative way of saying, 'Dydw i ddim wedi gorffen' (I haven't finished)?
 - Dydw i ddim am orffen
 - Dw i jest â gorffen
 - Dw i heb orffen**
- How would you ask if something is wrong?
 - Beth sy'n bod?**
 - Beth sy'n anghywir?
 - Beth sy'n fater?
- Which of the following is the equivalent of the expression 'face to face'?
 - wyneb dros wyneb
 - wyneb yn wyneb**
 - wyneb o wyneb
- How would you translate 'this year'?
 - eleni**
 - llynedd
 - y flwyddyn hwn
- How would you say 'Excuse me' to someone you address as 'ti'?
 - Esgusodwch fi.**
 - Esgusoda fi
 - Esgusa fi
- Which of the following CANNOT be used for 12.30 p.m.?
 - hanner awr wedi hanner
 - hanner awr wedi deuddeg
 - hanner awr wedi naw**